# Dathlu . . . Dathlu . . . Dathlu . . .

Bydd llawer ohonoch chi'n dathlu cyn bo hir, ar ôl i chi orffen yr arholiadau TGAU a Lefel A. Byddwch chi'n teimlo'n rhydd ... yn falch ... yn hapus bod pwysau arholiadau drosodd.

Mae dathlu mewn ffordd gyfrifol yn dda i chi, wrth gwrs, ond mae angen bod yn ofalus hefyd.

Dyma ychydig o gyngor i chi:

1. Cynlluniwch ble byddwch chi'n mynd a dywedwch wrth eich rhieni ble byddwch chi.
2. Trefnwch sut byddwch chi'n mynd adre cyn i chi fynd allan! Os ydych chi'n bwriadu dal bws adre, gwiriwch yr amseroedd cyn mynd. Os ydych chi'n bwriadu ffonio tacsi, gwnewch yn siŵr fod gennych chi'r rhif.
3. Gofalwch eich bod chi'n gwefru'ch ffôn symudol cyn gadael eich cartref a bod digon o gredyd arno. Hefyd, gwnewch yn siŵr fod gennych chi rifau ffôn pobl y gallwch chi gysylltu â nhw mewn argyfwng.
4. Peidiwch â chymryd cyffuriau nac alcohol gan neb.
5. Peidiwch â gadael unrhyw ddiod ar y bwrdd, e.e. tra byddwch chi'n dawnsio neu'n mynd i'r tŷ bach.
6. Arhoswch gyda'ch ffrindiau - peidiwch â mynd i grwydro ar eich pen eich hun.
7. Peidiwch â gadael bagiau nac unrhyw eiddo gwerthfawr o gwmpas y lle tra byddwch chi'n dawnsio neu'n mynd i'r tŷ bach.

Mwynhewch - ac os ydych chi'n bwriadu dychwelyd i'r ysgol hon, cofiwch fod y tymor nesaf yn dechrau ar 3 Medi.

Pob hwyl!